# Y CABINET DYDD MAWRTH, 13 RHAGFYR 2022

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Craig ab Iago, Beca Brown, Nia Jeffreys, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

**Hefyd yn bresennol-**
Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 3: Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor/Meirionnydd) a Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).
Eitem 6: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd)
Eitem 7: Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Prif Weithredwr, Dafydd Gibbard.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

**EITEM FRYS: YSGOL TREFERTHYR – CYNYDDU CYLLIDEB CYFALAF Y PROSIECT**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd cynyddu cyllideb ar gyfer datblygu Ysgol Treferthyr newydd i **£8,145,206.**

Caniatawyd trosglwyddo **£3,261,880** o gyllideb gweddill amlen Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Band B) er mwyn cyfarch cynnydd sylweddol yng nghostau'r prosiect, gan dderbyn y bydd yn arwain at lai o gyllideb ar gael i wireddu prosiectau eraill o fewn Band B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Gwynedd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r camau sydd wedi eu cwblhau hyd yma ar y daith o adeiladu Ysgol newydd yng Nghriccieth ond bod cynnydd sylweddol wedi bod yng nghostau adeiladu'r Ysgol. Nodwyd bod yr adroddiad yn manylu ar y ffyrdd i gyfarch y

diffyg ariannol ac i godi rhagor o gyllideb. Amlygwyd y camau sydd wedi digwydd ers mis Mai 2021. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru bryd hynny wedi cymeradwyo ariannu cyllideb lawn o £4.9 miliwn ar gyfer adeiladu'r Ysgol ac yn cyfrannu 65% tuag at y gost gyda'r Cyngor yn cyfrannu 35%. Adroddwyd bod y cynnydd sylweddol i gostau adeiladu sydd wedi digwydd dros yr 18 mis diwethaf wedi arwain at gynnydd yn y gost i ychydig dros £8 miliwn oherwydd ffactorau fel costau cynyddol mewn deunyddiau, ynni a chwyddiant.

Adroddwyd ar y cais sydd wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu cyllideb ariannu'r Ysgol a gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnydd hwn a throsglwyddo'r gyllideb o gynllun band B er mwyn cyfarch y cynnydd sylweddol yng nghostau'r prosiect. Ychwanegwyd mai sgil effaith trosglwyddo'r gyllideb fydd effaith ar weddill cyllideb band B a llai o gyllideb i wireddu'r prosiectau yno.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd bod safle presennol yr Ysgol yn anaddas. Nodwyd bod y datrysiad yn ymddangos yn syml ond bod oblygiadau i'w hystyried.
- Mynegwyd cefnogaeth i'r cais gan nodi bod opsiynau eraill yn brin.
- Holwyd beth yn union yw sgil effeithiau band B.
- Mewn ymateb nodwyd mai £1.1 miliwn fydd yr effaith sef 35% o'r cynnydd o £3.2 miliwn gan bod y gweddill eisoes wedi ei adnabod. Bydd y swm yma yn cael ei ddargyfeirio o gynlluniau eraill megis y gyllideb Ôl-16; bydd y gyllideb yma yn gostwng er mwyn cyfarch yr arian ychwanegol ar gyfer y cynllun hwn.
- Croesawyd y cais er lles plant Criccieth a credwyd y bydd y gymuned yn falch iawn o'r Ysgol newydd. Gwnaethpwyd sylw bod wir angen buddsoddiad yn Ysgol Eifionydd a bod angen i'r Cyngor bwyso ar Lywodraeth Cymru er mwyn gwella'r adnoddau yn yr Ysgol hon.
- Mewn ymateb nodwyd bod Ysgol Eifionydd yn rhan o'r Cynllun Cyflwr ac Addasrwydd i fod yn uwchraddio a gwella amodau a chyfleusterau ac nid yw'r swm yn un sylweddol.
- Credwyd er gwaetha'r cynnydd yng nghostau adeiladu'r Ysgol bod y Cyngor yn cael Ysgol gwerth am arian yng Nghriccieth. Edrychwyd ymlaen at weld y prosiect yn cael ei gwblhau a credwyd y bydd y buddsoddiad yn llesol i addysg plant dalgylch Criccieth am flynyddoedd lawer.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2022 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma yn erbyn blaenoriaethau Cynllun y Cyngor presennol. Adroddwyd ar y sefyllfa ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor yn y Sir gan nodi fod yr Adran yn arwain ar y gwaith o baratoi Cyfarwyddyd Erthygl 4 fydd yn rhoi hawl i awdurdodau cynllunio reoli ail gartrefi. Nodwyd fod y gwaith yma yn parhau gyda'r bwriad o ddod ag adroddiad ger bron y Cabinet yn y flwyddyn newydd.

Soniwyd am rai heriau oedd yn wynebu'r Adran sy'n cynnwys y gwasanaeth cynllunio a'r heriau staffio oedd yn bodoli, yn benodol o fewn y gwasanaeth gorfodaeth cynllunio. Adroddwyd bod 740 o geisiadau yn agored ddiwedd Mehefin sydd bellach wedi lleihau i 586 o geisiadau erbyn diwedd mis Hydref. Canmolwyd y gwaith aruthrol sydd wedi ei gyflawni gan gydnabod bod heriau yn parhau i fodoli ond bod yr Adran yn gwneud eu gorau i gwrdd â'r galw ar y gwasanaeth.

Yn yr un modd adroddwyd ar y gwaith i glirio'r ôl-groniad yn y maes Pridiannau Tir ac i leihau'r cyfartaledd amser i brosesu'r ceisiadau hynny. Nodwyd bod staff dros dro wedi eu penodi a bod y gwasanaeth yn y broses o drosglwyddo i system gyfrifiadurol newydd yn y gobaith y gwnaiff hyn gyflymu'r broses unwaith bydd y system mewn lle.

I gloi adroddwyd ar lwyddiannau o fewn yr Adran oedd yn cynnwys 90% o waith o fewn y maes Gwaith Stryd yn cael ei gyflawni gan gontractwyr o fewn yr amserlen wreiddiol

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd bod y gwaith sy'n cael ei gwblhau gan yr Adran yn enfawr a'u bod yn chwarae rhan flaenllaw ym mlaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Credwyd eu bod yn haeddu canmoliaeth am yr hyn a gyflawnir.
- Mynegwyd balchder bod amser prosesu ceisiadau Pridiannau Tir yn lleihau a chydnabuwyd yr hyn roedd yr Adran yn ei wneud i ymdrin â'r materion. Credwyd ei bod yn amlwg bod yr Adran yn ceisio eu gorau ac yn llwyddo i daclo'r llwyth gwaith ac awgrymwyd i'r Adran rannu eu hymdrechion a'u datrysiadau gan y gall hyn newid canfyddiadau.
- Dymunwyd y gorau i'r Adran tra'n cymryd drosodd rhai agweddau o wasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol.
- Holiwyd am reolaeth cartrefi modur gan gwestiynu os oedd yr amserlen a nodwyd yn yr adroddiad yn realistig o ran capasiti ac amserlen caniatâd cynllunio.
- Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cynorthwyol bod heriau yn bodoli er enghraifft adnabod safleoedd priodol, roedd hyn wedi bod yn her oherwydd cyfyngiadau cynllunio. Nodwyd bod y ceisiadau cynllunio i fod i gael eu cyflwyno ar gyfer y safleoedd cyn y Nadolig sy'n dangos bod yr amserlen wedi llithro. Cadarnhawyd bod trafodaethau yn parhau o ran yr ochr gyllido efo Croeso Cymru, sy'n cael ei arwain gan yr Adran Economi a Chymuned. Gobeithir gallu cael penderfyniadau yn fuan iawn ar y ceisiadau cynllunio i allu symud ymlaen efo'r wedd datblygu.

- Gofynnwyd am ddiweddariad ar y cynllun 20 milltir yr awr mewn pentrefi. Amlygwyd bod elfen o ddryswch ymhlith y cyhoedd ynglŷn a pwy sy’n arwain ar y cynllun.
- Mewn ymateb nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i newid y terfyn cyflymder o 30 milltir yr awr i 20 mewn pentrefi. Credwyd y bydd hyn yn gwella ansawdd yr aer a gwneud pentrefi yn fwy diogel. Adroddwyd ei fod yn benderfyniad Llywodraeth Cymru a bod trafodaethau wedi eu cynnal efo Awdurdodau Lleol gyda’r bwriad o’i weithredu erbyn mis Ebrill 2023. Nodwyd y bydd rhai sefyllfaoedd ble bydd y terfyn cyflymder yn aros yn 30, bydd ymgynghorwyr yn cael eu penodi i edrych ar yr eithriadau a bydd ymgynghori yn digwydd efo Cynghorau Cymuned yn fuan iawn. Adroddwyd bod bwriad i ddiweddaru’r Porth Aelodau efo’r wybodaeth fel bod Cynghorwyr yn ymwybodol o’r ymgyrch. Bydd hyn yn amserol oherwydd bod angen codi ymwybyddiaeth o’r cyfnod ymgynghori efo Cynghorau Cymuned. Bydd angen edrych ar yr eithriadau ond ar y cyfan bydd pob man sydd â therfyn cyflymder o 30 ar hyn o bryd o fewn pentrefi / system goleuadau stryd yn newid i 20 milltir yr awr yn fuan.
- Gwnaethpwyd sylw pellach bod gwrthwynebiad gan sawl Cyngor i’r newid hwn gyda cwestiynau yn codi ynglŷn â pha mor ymarferol yw’r cynllun. Adroddwyd bod cais wedi ei wneud i’r Llywodraeth ohirio’r cynllun yn sgil yr argyfwng ariannol presennol am ei fod yn ymddangos yn brosiect costus.
- Holwyd am faterion trafnidiaeth gyhoeddus ac am ddiweddariad ar y trafodaethau am drefniadau bysus ar draws Gymru. Pryderwyd am ymarferoldeb hyn mewn lleoliadau gwledig.
- Mewn ymateb nodwyd bod adroddiad wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau rhai wythnosau yn ôl am y maes trafnidiaeth gyhoeddus. Nodwyd bod Trafnidiaeth i Gymru a Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth i Awdurdodau Lleol i edrych ar rwydweithiau a gwella’r rhain. Cydnabuwyd bod hyn yn heriol mewn ardaloedd gwledig. Adroddwyd bod gwelliannau i’w gweld mewn rhai gwasanaethau a bod ail ddylunio gwasanaeth wedi arwain at fudd i gymunedau lleol. Wedi dweud hyn, nodwyd bod y partneriaethau yn ei chael hi’n anodd cyfarch y costau ychwanegol. Cyfeiriwyd at y bysiau trydan sy’n gynllun arloesol â’r ddarpariaeth i wefru bysiau trydan ym Mhorthmadog. Golyga hyn bod gofyn am gyfraniad gan y Cyngor tuag at y gwaith yma. Nodwyd bod gwelliannau i’w gweld yn y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus ond bod y gwasanaeth cludiant yn gorwario dros £300,000 eleni felly bod y sefyllfa yn un anodd wrth geisio gwella’r ddarpariaeth a chyfrannu at y gwelliant.

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD PRIFFYRDD, BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Berwyn Parry Jones.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gyfleu gwerthfawrogiad yn y lle cyntaf i'r gweithwyr sydd yn gweithio dan amgylchiadau anodd a phrysur yn graeanu yn sgil y tywydd oer diweddar a diolchwyd am eu gwaith. Adroddwyd bod y gwasanaethau Casglu a Thrin Gwastraff wedi cael eu trosglwyddo i'r Adran Amgylchedd a bod yr Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi symud i fod yn rhan o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Dymuna'r Aelod Cabinet nodi ei werthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran gan gydnabod y cyfraniad allweddol a wnaethpwyd ganddynt yn ystod y cyfnod hwn. Amlygwyd y bwriad i newid enw'r Adran yn sgil y symudiadau diweddar. Yr enw a ffafrir yn dilyn ymgynghori â staff yw Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC.

Nodwyd bod cryn dipyn o waith yn wynebu'r Adran dros y misoedd nesaf sy'n cynnwys adolygiad o'r Gwasanaeth Glanhau Stryd a hefyd gwaith manwl yn ymwneud â'r gyllideb. Adroddwyd ar y prosiectau yng Nghynllun presennol y Cyngor sy'n cynnwys y prosiect Cymunedau Glan a Thaclus, Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r prosiect Mapio Gwasanaethau. O dan y prosiect hwn bwriedir gosod gwahanol asedau'r Adran ar fap ble bydd modd i drigolion weld statws yr ased ac adrodd ar unrhyw ddiffygion e.e. lampau stryd neu finiau halen.

Tynnwyd sylw at y Strategaeth Fflyd gan gymryd y cyfle i bwysleisio'r penderfyniad a wnaethpwyd gan y Bwrdd Newid Hinsawdd, sef na ddylai unrhyw Reolwr adnewyddu na gwaredu unrhyw gerbyd heb drafod yn gyntaf efo'r Rheolwr Fflyd. Esboniwyd bod hyn yn hanfodol i lwyddiant y Strategaeth Fflyd. Roedd hyn yn sgil canfyddiad bod gormod o brynu cerbydau wedi digwydd ar sail ad-hoc yn y gorffennol. Credwyd y bydd y cyfarwyddyd hwn yn cael ei rannu ag Adrannau yn fuan.

Amlygwyd prosiectau eraill yr adroddwyd arnynt megis y prosiect Fairbourne cyn symud ymlaen i adrodd ar berfformiad yr Adran gan nodi bodlonrwydd ynglŷn â'r perfformiad. Cyfeiriwyd at y gwaith o amnewid holl oleuadau stryd y Cyngor i dechnoleg LED yn ogystal â'r gwaith glanhau strydoedd, cynnal priffyrdd a'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus.

I gloi soniwyd am waith Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) sydd yn wasanaeth sy'n dod ag incwm sylweddol i'r Cyngor ac yn ymgymryd â swyddogaethau statudol yn y maes dŵr a rheoli llifogydd cyn cyfeirio at sefyllfa ariannol yr Adran. Mynegwyd bod gorwariant o £600,000 o fewn yr Adran bresennol Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn dilyn trosglwyddo rhai gwasanaethau i'r Adran Amgylchedd ond bod gwaith ar y gweill i ddeall y rhesymau dros y gorwariant ac i roi mesurau mewn lle i unioni'r sefyllfa. Adroddwyd bod YGC yn tanwario bron i £30,000.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a chroesawyd newid enw'r Adran.
- Mynegwyd ansicrwydd ynglŷn â pha Adran mae rhai cyfrifoldebau ac agweddau gweithredol y Cyngor yn gorwedd a bod elfen o gymhlethdod yma.
- Ategwyd gwerthfawrogiad i waith yr Adran yn y tywydd oer diweddar gan ychwanegu bod angen i yrwyr neu gerddwyr ystyried os yw eu teithiau yn angenrheidiol gan na all y Cyngor yn anffodus raeanu pob man.
- Credwyd y dylid cyfleu trefn blaenoriaethu graeanu'r ffyrdd i holl Aelodau'r Cyngor fel eu bod yn glir bod trefn yn bodoli. Ategwyd bod trefn o

ran graeanu llwybrau dosbarth cyntaf a bod pwysau ar yr Adran i ymateb i bob lleoliad. Cytunwyd y dylid amlygu'r drefn i Aelodau'r Cyngor drwy efallai gyfeiriad ym mwletin yr Arweinydd neu nodyn gan y Pennaeth Adran. Soniwyd hefyd am App Gwynedd sy'n rhestru pa ffyrdd sy'n cael eu graeanu.

- Mynegwyd bod llawer o newyddion da a calonogol yn ymddangos yn yr adroddiad. Credwyd bod cynlluniau cadarn a realistig yn eu lle ar gyfer cwrdd â'r gorwariant at y dyfodol.
- Cyfeiriwyd at yr incwm sy'n cael ei greu o dan y gwasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd gan holi os oedd targed yn bodoli ar gyfer yr elw yma. Cadarnhaodd y Pennaeth Adran bod targed yn bodoli ond nad yw'r union ffigwr ganddo ar hyn o bryd. Eglurwyd bod bwriad dod ag adroddiad ger bron y Tîm Arweinyddiaeth ar y maes YGC yn y flwyddyn newydd a gellir cyfeirio at yr elfen incwm yn yr adroddiad yno.
- Holwyd os gellir pylu goleuadau yn enwedig yng nghanol y nos. Nodwyd y bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y cynllun arbedion.
- Cyfeiriwyd at y pwyntiau gwefru sy'n cael eu gosod ac os oes incwm yn cael ei dderbyn ohonynt. Cadarnhawyd bod y pwyntiau gwefru sydd mewn meysydd parcio yn eistedd o dan gyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd.

Cymerwyd y cyfle ar ddiwedd y cyfarfod i ddymuno Nadolig Llawen i drigolion y Sir ac i Gyd-aelodau a Swyddogion y Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:05pm

______________________________

**CADEIRYDD**